Utrecht University Library
Partner in Science
Universiteit Utrecht

# Cadeiriau enwog

https://hdl.handle.net/1874/379602

# Cadeiriau Enwog.

ANTHROPOS.

PRIS CHWE'CHEINIOG.

EL

VAN HAMEL
481

E DONATIONE

A. G. van HAMEL

PROFESSORIS
ORDINARII IN
ACADEMIA
RHENO-TRAIECTINA
1923—1946

Van Hamel 481

# CADEIRIAU ENWOG

GAN

R. D. ROWLAND

(ANTHROPOS)

CAERNARFON:
CYHOEDDWYD GAN GWMNI'R WASG GENEDLAETHOL GYMREIG
(CYF.).

UNIVERSITEITS BIBLIOTHEEK - UTRECHT -

CYFLWYNEDIG

I

AELODAU

"BWRDD Y LLENOR,"

ER COF

AM

GYMDEITHAS A DYDDANWCH

Y

DYDDIAU FU.

# CYNWYSIAD.



| | TUDALEN. |
|---|---|
| Gair o'r Gadair ... ... ... ... | 5 |
| Dadblygiad y Gadair ... ... .. ... | 11 |
| Cadair Crefydd ... ... ... ... | 16 |
| Cadair Gwleidyddiaeth ... ... ... | 20 |
| Cadair y "Llefarydd" ... ... ... | 22 |
| Cadair y Bardd .. ... ... ... | 25 |
| Cadair y Golygydd .. ... ... ... | 32 |
| Cadair yr Awdwr ... ... ... ... | 36 |
| Y Gadair Wag ... ... ... ... | 41 |
| Cadair yr Aelwyd ... ... ... ... | 44 |
| Cadair Angel ... ... ... ... | 55 |


# Y DARLUNIAU.


| | TUDALEN. |
|---|---|
| Cadair Goldsmith ... | 5 |
| Cadair Tennyson ... | 11 |
| Cadair Dr. Watts ... | 16 |
| Cadair y Coroniad ... | 20 |
| Cadair Shakspeare ... | 24 |
| Cadair Bunyan ... ... | 37 |
| Cadair Charles Dickens | 42 |
| Cadair Longfellow .. | 44 |
| Cadair Robert Roberts, Clynnog ... ... | 59 |

## GAIR O'R GADAIR.

About the oak that framed this chair, of old,
The seasons danced their round : delighted wings
Brought music to its boughs : shy woodland things
Shared its broad roof, 'neath whose green glooms grown bold,
Lovers, more shy than they, their secret told :
The resurrection of a thousand Springs
Swelled in its veins.




ENW un o ddarnau barddonol Cowper ydyw "Y Dasg." Cafodd ei awgrymu gan un o gyfeillesau y bardd. "Paham nad ydych yn cyfansoddi?" ebai Lady Austen. "Nid oes genyf destyn," ydoedd ateb Cowper. "Mi a roddaf i

chwi destyn," ebai hithau, "os ydych yn addaw canu arno." Ac fel y gellid disgwyl i fardd, addawodd yntau wneyd, a hynny cyn gwybod beth ydoedd. "Wel, o'r goreu, cyfansoddwch bryddest ddiodl i'r—*sofa*." Testyn digon anfarddonol, ynddo ei hun, ond ymaflodd Cowper yn y dasg, a chyfansoddodd farddoniaeth ardderchog—un o gynyrchion goreu ei awen.

"I sing the sofa," meddai, ac wrth wneyd hynny y mae yn talu gwarogaeth i'r testyn sydd yn cael ei drafod ar ddalennau y llyfr hwn—y gadair. Dywed fod gwneuthuriad y gadair gyntaf yn gyfystyr a dydd geni Dyfais—"the birthday of Invention." Ar y dechreu, nid oedd ond dernyn digon anolygus o gelfyddyd—

> "weak at first,
> Dull in design, and clumsy to perform."

Ond er fod y dechreu yn syml ac amherffaith, aeth y ddyfais rhagddi nes y daeth y gadair yn ddodrefnyn esmwyth, hylaw a chelfydd. Ac os

cafodd Cowper ddefnyddiau barddoniaeth yn y *sofa*, yr ydym ninnau yn credu y gellir cael defnydd ychydig sylwadau ymarferol mewn cadair. Dyna ein hesgusawd dros alw sylw y darllenydd at "Gadeiriau Enwog," gyda'r amcan o olrhain rhyw gymaint ar eu hanes a'u dylanwad. Nid ydym yn cadw masnachdy dodrefn, ac nid ydyw dirgelion celfyddyd y *cabinet-maker* wedi eu meistroli genym. Ac nid cadeiriau Eisteddfodol sydd yn benaf o flaen ein meddwl, er fod y rhai hynny yn cael eu cydnabod, yn eu tro, yn mysg y lluaws. Yr ydym, yn hytrach, yn edrych ar gadeiriau yn eu cysylltiad â phersonau, ac â bywyd cymdeithasol.

Y mae "cadair" yn ymadrodd ehang: defnyddir ef am bethau tra gwahanol o ran ffurf a maint—cadair y Gymanfa, Cader Idris, &c. A ydyw "cadair" a "chader" yn eiriau cyfystyr? Dywed Dr. Owain Puw nad ydynt. Y mae

*cader*, meddai ef, yn golygu amddiffynfa, neu gaer, megis Cader Idris, cader Bronwen, &c. Os ydyw yr esboniad hwn yn gywir, y mae yn eglur nas gallwn ddodi "Cader Idris" ar y rhestr sydd yn canlyn; oblegyd â'r "gadair" fel eisteddle, ac nid y "gader" fel amddiffynfa filwrol y mae â wnelom yn bresennol. Fod cader Idris yn un o'r "cadeiriau enwog" sydd anwadadwy, ac y mae Dr. Cynddylan Jones yn ei lyfr diweddar ar "Primeval Revelation" yn rhoddi esboniad tra gwahanol arni i'r eiddo Dr. Puw. Yn ol ei dyb ef, yr oedd Idris yn gyfystyr ag Enoch, y "seithfed o Adda." Ac yr oedd y patriarch hyglod hwnnw, fe ymddengys, yn astronomydd,—yn un o rag-redegwyr astronomyddion Caldea. Ac yn gymaint ag nad ydoedd y *telescope* wedi ei ddyfeisio ar y pryd, yr oedd Enoch a'i gyd-efrydwyr yn cyflenwi y diffyg drwy ddringo y mynyddau, esgyn mor agos i'r nefoedd wybrenol ag oedd yn bosibl.

Ac yn ystod yr ymdeithiau hyn, daeth y patriarch rywfodd i Gymru, a chafodd fod y mynydd sydd gerllaw Dolgellau yn lle tra manteisiol i astudio y planedau. Dyna y rheswm iddo gael ei alw, gan oesau dilynol, yn "Gader Idris." Nid amddiffynfa filwrol ydoedd, ond arsyllfa seryddol yn moreu'r byd! Yr ydym yn dweyd hyn ar awdurdod y "Davies Lecture" am 1896.

A chan i mi grybwyll am gader Idris, y mae yn weddus dweyd fod yna gader arall llawer uwch na honno. Yr enw a roddir ar un o'r cydser *(constellations)* sydd ar gyffiniau y Llwybr Llaethog ydyw "Cassopeia," yr hyn o'i gyfieithu ydyw,—"cader y foneddiges." Dywed chwedloniaeth mai un o frenhinesau Ethiopia ydoedd y foneddiges anturiaethus hon, a osododd ei chader yn mysg ser y nef. Dylai hyn weinyddu cysur i amddiffynwyr y "New Woman." Dyweded doctoriaid Rhydychain a Chaergrawnt y peth a fynont ar y pwnc o roddi

"graddau" i'r rhyw fenywaidd, y mae y "ser yn eu graddau" yn cydnabod eu rhagoriaeth. "Cader y foneddiges" ydyw yr uwchaf drwy holl derfynnau Natur fawr!

Ond cadeiriau Natur ydyw y rhai'n, ac am hynny rhaid eu gadael, gyda moesgrymiad gwylaidd, o'r byd isel a ffwdanus hwn.

Gadawn y "gader" i rywun arall, a cheisiwn draethu ein dameg am gadeiriau, hen a diweddar.


Nid oes dim yn athronyddol nac yn ddyfnddysg yn y sylwadau: ond yr ydym yn dychymygu am ambell ddarllenydd, ar ddiwedd goruchwylion y dydd, yn eistedd yn ei gadair ddewisol, wrth y ffenestr, neu yn ochr y tân, ac yn mwynhau awr neu ddwy mewn dystawrwydd a boddhad, yn nghwmni y cadeiriau hyn, a'r cymeriadau sydd wedi eu gwneyd yn enwog ac yn anfarwol.

YR AWDWR.

# CADEIRIAU ENWOG.

## *PENNOD I.*

### DADBLYGIAD Y GADAIR.




DRO yn ol, ymddangosodd ysgrif yn un o'r cyhoeddiadau hynny sydd wedi eu bwriadu yn arbenig ar gyfer gweithwyr a chrefftwyr ein gwlad, yn dwyn y penawd uchod,—dadblygiad y gadair. Honai yr awdwr nad oes odid ddim

sydd yn dangos gweithrediad deddf dadblygiad yn fwy eglur na'r dodrefnyn cyffredin ac adnabyddus hwn—y gadair. O ran defnydd a ffurf y mae wedi mynd drwy gyfnewidiadau lawer. Arall yw cadair y gegin, ac arall yw cadair y parlwr: arall yw cadair y plentyn, ac arall yw cadair yr henafgwr. Y fath wahaniaeth sydd rhwng cadair galed, gefn-uchel yr amser fu, a chadair esmwyth, glustogaidd, y dyddiau diweddaf hyn. Yr oedd y naill yn syml a diaddurn, a'r llall yn gynyrch celfyddyd ddiwylliedig.

Y mae yr ysgrif y cyfeiriwyd ati yn olrhain y gadair yn ol i'w ffurfiau cyntefig, ac y mae y cwestiwn yn ymgynyg,—Pwy a luniodd y gadair gyntaf erioed? Pwy ydoedd tad y drychfeddwl? Y mae'n eithaf amlwg y dylid ei ystyried yn gymwynasydd i wareiddiad. Yr ydym yn ddyledwyr iddo am un o gysuron penaf ein bywyd teuluaidd a chymdeithasol.

Byd rhyfedd i ni, heddyw, fuasai byd heb gadair. Y mae yn un o anhebgorion bywyd. Nis gellir gwneyd hebddi mewn bwthyn na phalas. Ond ymddengys fod enw a hanes yr hwn a roddes fod i'r drychfeddwl, fel llawer dyfais arall, yn gorwedd mewn dirgelwch.

Nid oes neb yn gwybod yn mha gyfnod, neu yn mha wlad yr oedd yn byw. Hyn sydd sicr, —yr oedd yn byw yn lled gynar yn oes y byd, ac yn un o rag-redegwyr ein gwareiddiad. Y mae gwledydd sydd eto heb agor eu llygaid ar y drychfeddwl: nid ydyw cadair yn adnabyddus ynddynt. Ond yn mysg cenedloedd gwareidd-iedig y mae y gadair yn bod, ac wedi bod, er's llawer dydd. Sonir am dani mewn llenydd-iaeth henafol, ac fe ddywedir fod Plato yn cyfrif y gadair yn mysg y "drychfeddyliau"—yr *ideal state.* Y mae yn cyflawni rhan bwysig yn mywyd dyn a chymdeithas. Ac yn yr ystyr yna y bwriedir trafod y testyn ar y dalennau

sydd yn canlyn. Nid ydym yn abl i draethu ar gelfyddyd y pwnc. Gwyddom fod i gadeiriau eu hanes yn yr ystyr hwn. Y mae llawer o honynt yn gywreinwaith o'r fath ragoraf; ac y mae pobl sydd yn medru porthi eu chwaeth at y cywrain yn rhoddi eu bryd, yn mysg pethau eraill, ar gasglu cadeiriau o wneuthuriad hynod, a hynny am eu bod yn fynegiad, mewn un wedd, o athrylith gywrain a chelfydd.

Ond ein hamcan syml ni yn bresennol, ydyw son am gadeiriau fel y maent yn delweddu gwahanol agweddau ar fywyd personol a chymdeithasol. Nid y gadair fel dodrefnyn yn gymaint, ond y gadair fel drychfeddwl. Yn yr ystyr hwn, y mae iddi hanes a dylanwad diamheuol, ac ni fu y dylanwad hwnnw un amser yn gryfach nag ydyw yn y dyddiau presennol. Gellir dweyd fod bywyd gwareiddiad yn canolbwyntio mewn cadair. Os sonir am allu meddyliol, y mae hwnnw yn ymgorphori mewn

cadair. Os sonir am awdurdod,—y drychfeddwl o lywodraeth a threfn—y mae hwnnw yn cyfarfod yn yr arwyddlun yma—awdurdod y gadair. Os meddylir am anwyldeb a serch teuluaidd, y mae hwnnw, hefyd, yn cronni o gwmpas cadair,—cadair mam a thad, cadair oedd yn orsedd, yn allor, yn esmwythfainc yr un pryd.

Y mae y drychfeddyliau hyn, a llawer mwy, yn cyniwair o gwmpas y testyn. Bellach, rhoddwn dro yn mysg y cadeiriau, gan edrych arnynt fel delweddau o fyd y meddwl, fel arwydd gweledig o ryw ddrychfeddwl ac y mae dyn a chymdeithas yn ei werthfawrogi. Er mwyn rhoddi "terfyn ar y diderfyn," ni a'u dosbarthwn fel hyn:—

I. Cadair Crefydd.


II. Cadair Gwladwriaeth.

III. Cadair Llenyddiaeth.

IV. Cadair yr Aelwyd.

*PENNOD II.*

## CADAIR CREFYDD.




Y MAE a wnelo y gadair â chrefydd er yn fore. Nid awn i olrhain y crefyddau paganaidd: digon ydyw crybwyll am grefydd y Beibl,—Iuddewiaeth a Christionogaeth, yr Hen Oruchwyliaeth a'r Newydd. Yr oedd yn y synagog, yn nyddiau yr Iesu, yr hyn a elwid yn "gadair Moses," a mawr oedd y dyhead am dani. "Yn nghadair Moses yr eistedd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid." Nid oes cyfeiriad uniongyrchol ati yn yr Hen Destament. Derbyniodd ei henw drwy draddod-

iad, am mai Moses ydoedd deddf-roddwr mawr y genedl. Dyna gadair y Rabbi Iuddewig. Ond yn ol tystiolaeth yr Iesu, yr oedd ei hawdurdod wedi diflannu. Cadair wag ydoedd. Nis gallai cadair Moses, fel arwydd gweledig, wneuthur dim.

Wedi hyn daeth Cristionogaeth fel anadl bywyd i fysg yr esgyrn sychion. Ar y cyntaf nid oedd yn perthyn iddi arwyddluniau allanol. Ysbryd a bywyd ydoedd; ond y mae'n rhaid i bob ysbryd wrth ryw gymaint o gorph yn y byd hwn. Ymwisgodd ysbryd Cristionogaeth mewn corph o gymdeithasau, sefydliadau, a swyddogaethau. Ac yn mysg y swyddogaethau hynny, daeth eiddo yr esgob i feddu uwchafiaeth—esgob Rhufain, Carthage, Alexandria, &c. Perthynai i'r swydd honno ei chadair,—cadair yr esgob; ac mewn canlyniad, daeth yr eglwysi oeddynt yn ganolbwynt mewn talaeth, i gael eu hadnabod fel eglwysi cadeiriol—*cathedrals*—ac y

mae yr enw yn aros hyd y dydd hwn. Yn y rhai'n y mae cadeiriau crefydd yn nglyn â'r Eglwys Sefydledig.

Ond nid ydyw y gadair yn gyfyngedig i Eglwys Loegr. Y mae gan grefydd, yn rhengau yr Anghydffurfwyr, ei chadeiriau lawer. Y mae anrhydedd ac awdurdod y Cyfundebau Ymneillduol yn ymgrynhoi o ddeutu yr arwyddlun hwn. Dyna gadair yr Undeb gan yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr; cadair y *Conference* gan y Wesleyaid; cadair y Gymanfa gan y Presbyteriaid a'r Methodistiaid. Teimlir dyddordeb nid bychan yn yr etholiadau hyn, ac y mae yr anerchiad o'r gadair yn cael edrych arno fel mynegiad o feddwl aeddfed y cyfundeb y bo yn perthyn iddo ar bynciau duwinyddol a chymdeithasol. Ond er mai yr uchod ydyw prifgadeiriau crefydd, yn y Cyfundebau Ymneillduol, y mae yn weddus crybwyll am gadeiriau eraill sydd yn meddu cryn ddylanwad a swyn.

Dyna gadair y Gymdeithasfa Chwarterol, cadair y Cwrdd Talaethol, &c. A chadair leol dra pharchus, gydag un enwad, ydyw cadair y Cyfarfod Misol. Gwelir ar unwaith nad ydyw Ymneillduaeth mwy na'r Eglwys Sefydledig, yn brin mewn cadeiriau, ac yn ol yr hyn ellid gasglu ar adeg ethol llywyddion, nid oes brinder dynion i'w llenwi. O'r hyn lleiaf, y mae yr awyddfryd am anrhydedd y gadair, boed fechan neu fawr, yn cymeryd meddiant llwyr o lawer.

Dichon y gellid dweyd am rai o'r cadeiriau uchod mai "Treiswyr sydd yn ei chipio hi," ond y maent o fantais, hefyd, i anrhydeddu y sawl sydd wedi gwasanaethu crefydd mewn modd amlwg a helaeth, ac y mae lleygwyr, yn ogystal a gweinidogion, yn etholadwy ac i raddau, yn etholedig i'r naill a'r llall o honynt.

*PENNOD III.*

## CADAIR GWLEIDYDDIAETH.



Coronation Chair

Y BRIF gadair yn y cysylltiad hwn ydyw eiddo y penadur,—y deyrngadair, yr orseddfainc. Y maehonno, yn nglyn â'n teyrnas ni, wedi ei lleoli yn

Nhy yr Arglwyddi; ond y mae cadair arall sydd yn meddu ar lawn cymaint o ddyddordeb,—

CADAIR Y CORONIAD.

Y mae wedi ei lleoli yn monachlog hybarch Westminster. Nid ydyw y *coronation chair* ond dernyn digon caled a diaddurn yr olwg arni, ond y mae ei hanes yn gydblethedig â hanes a chynydd Prydain Fawr. Yn y gadair honno, yn y flwyddyn 1837, y derbyniodd ein grasusaf Frenhines ei choron a'i theyrnwialen. Mewn gweriniaeth fel eiddo Ffrainc, a'r Unol Daleithiau y mae y deyrngadair yn absennol. Cadair yr arlywydd ydyw pinacl anrhydedd. Y mae yr Unol Daleithiau yn ymferwi drwyddynt yn nglyn âg etholiad arlywydd. Y mae y cyffro enfawr, a'r draul anferth yr eir iddi bob pedair blynedd yn cydgrynhoi mewn cadair. Ac er fod llawer o ddylanwadau amheus ar waith, yn amser etholiad, y mae prif gadair gweriniaeth yn gadair agored. Gall

bechgyn o'r dosbarth gweithiol, fel Lincoln, Garfield, a Cleveland weithio eu ffordd ymlaen o'r bwthyn coed i'r Ty Gwyn,—i brif gadair eu gwlad.

Ond i ddod yn nes adref. Y mae cadair arall yn nglyn â'r byd gwleidyddol sydd yn meddu urddas ac awdurdod mawr. Adwaenir hi fel


"CADAIR Y LLEFARYDD,"

neu, cadair Ty y Cyffredin. Nid oes cadair yn Nhy yr Arglwyddi. Esmwythfainc sydd yno, ac y mae y brif eisteddfa yn cael ei galw yn "sâch wlan." Onid yw y geiriau hyn yn dra nodweddiadol o'r lle ac o'i breswylwyr? Cynrychiolwyr y bywyd esmwyth, di-ofalon, y rhai nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu, sydd yn cyfarfod yn y Ty hwnnw. Ond y mae awdurdod Ty y Cyffredin,—gweithdy y Wladwriaeth, —yn canolbwyntio mewn cadair. Cadair fawr, uchel, ydyw; y mae digon o le ynddi i hanner

dwsin o bobl gyffredin. Ac yn y gadair hon, mewn gwisgoedd swyddogol, gyda pherwig urddasol am ei ben, y mae y gwr a adwaenir fel "Mr. Speaker." Eistedda yn llonydd fel delw, ond y mae ei lygaid yn craffu ar bob ysgogiad. Y mae rheolaeth y Ty wedi ymgorphori ynddo. A phan gyfyd teimladau yn uchel, pan boetha y ddadl, clywir y gair "*chair*" yn dygyfor o'r gwaelodion. Dyna breswylydd y gadair yn codi, yn mynegi y ddeddf, a bu tawelwch mawr. Nis gellir treulio noson o'r braidd yn oriel Ty y Cyffredin heb dderbyn argraff ddigamsyniol o'r gallu dystaw, yr awdurdod oruchel sydd wedi eu personoli yn y Gadair.

## *PENNOD IV.*

## CADAIR LLENYDDIAETH.


Shakspeare

GELLIR dweyd fod yn perthyn i lenyddiaeth amryw gadeiriau, yn amrywio mewn gradd a gwerth. Yn Nghymru, dichon mai y brif gadair ydyw cadair yr Eisteddfod.

I. CADAIR Y BARDD.

Yn unol â thraddodiadau y gorphenol y mae honno, o ran ei gwneuthuriad, i fod yn gadair dderw,—

Cadeiriwyd mewn coed derwen,
Y Bardd a farnwyd yn ben.

Nis gellir dweyd gyda sicrwydd beth ydyw oedran y ddefod o gadeirio. Gwyddis fod yr Athraw J. Morris Jones, wedi taflu amheuaeth, os nad rhywbeth mwy, ar henafiaeth honedig yr Orsedd a'i gwasanaeth. Dichon y gwnelai yr un peth â'r ddefod o gadeirio. Ond y mae hyn yn arferiad, bellach, er's llawer dydd, ac y mae y dyddordeb a deimlir yn y seremoni gan y lluaws yn anwadadwy.

Y mae "Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain," yn trafod pwnc y cadeiriau Eisteddfodol, ac yn dadleu dros eu hawdurdod a'u henafiaeth. Sonia am Gadair Morgannwg, Cadair Tir Iarll, Cadair y Ford Gron, &c. :—

"Gwedi cwymp Arthur aeth celfyddyd a gwybodaeth dan orchudd, herwydd difrod ac anrhaith rhyfeloedd gwaedlyd : heb braidd llen-lewyrch yn tywynu i ddeffroi ymgais. Tua dechreu y nawfed ganrif ymddangosodd awen-ydd athrylithlawn, goleufyw,—Geraint Fardd

Glâs o'r Gadair, yr hwn a gododd Gadair adgywair wrth gerdd, yn Llandaf, a'r gair cysswyn, 'Duw a Phob Daioni.' A thyma ddechreu Cadair Morgannwg, yn ymrafael ar Gadair Beirdd Ynys Prydain, sef, un Caerlleon ar Wysg, er mai blynyddau ar ol hynny y galwyd hi yn Gadair Morgannwg."

"Einion ap Collwyn a ddodes y Gadair gyntaf yn Nhir Iarll, lle ei gelwid Cadair Einion."

"Cadair Taliesin, Bardd Urien Rheged yn Llanllychwr a elwid Cadair Fedydd am nas gellid Braint Athraw ynddi ond a fyddai dan fedydd ac adduned y ffydd yn Nghrist; a'r gair cysswyn, 'Da'r maen gyda'r Efengyl,' a'r gair hynny a fu hyd amser Rhobert, Iarll Caerloyw. A dodi ar gadair Tir Iarll chwilio yn maes hen wybodau Barddas; a chwedir chwiliaw, a'r caffael, a'r cadarnhad,—dwyn adwaedd Prif Gadair a Gorsedd, &c." Ond y

mae ysgrif arall yn rhoddi y flaenoriaeth i'r Ford Gron. "A goreuon o'r hen ddefodau y cafwyd dosbarth y Ford Gron. . . . Ag un y Ford Gron oedd honno, yn amgen ei threfn na Thir Iarll . . . A'r ddegfed flwyddyn cynal ail Eisteddfod Fawr Caerfyrddin, lle ennillodd Dafydd ap Edmwnt y Gadair Arian am ei orchestion a fernid yn oferbwyll celfyddyd gan feirdd Morgannwg; a Llawdden, yn Bencerdd Cadeiriog, a gafodd y Fwyall Aur am ei wellhad ar y cynganeddion, ac ni bu achos gwellhau arnynt ymhellach fyth wedi hynny! Ac yn yr Eisteddfod honno Beirdd Morgannwg a ddodasant eu gwrthneu yn erbyn Dosbarth Pedwar Pennill ar Hugain Dafydd ap Edmwnt . . . . . ac o hynny allan aeth Cadair Morgannwg ar ei phen ei hunan yn mraint Beirdd Ynys Prydain, âg yn ei chesail Dosparth y Ford Gron, fal ag a'i cadarnhäed yno gan Rhobert, Iarll Caerloyw, a Mabli ei wraig, y

dydd y priodasant yn Nghastell Caerdydd."

Gorchwyl digon cymhwys i'w wneyd ar ddydd priodas, gallwn dybied, oedd cadarnhau gwasanaeth gwerthfawr y Ford Gron!

Yn y dyddiau fu, ychydig ydoedd rhif y beirdd cadeiriol, ac nid ydoedd yr un bardd yn ennill mwy nac un neu ddwy o gadeiriau mewn oes. Erbyn heddyw, y mae genym feirdd y pum' cadair; ac yn gymaint a bod eisteddfodau lleol yn cysylltu cadair â'u testynau barddonol, y mae gan rai brodyr diwyd ddigon o gadeiriau, ysgatfydd, i gychwyn masnachdy dodrefn! Ond gydag eithriad neu ddwy, y mae cadair yr Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn gyfyngedig i'r mesurau caethion—i'r awdl. Y canlyniad ydoedd, fod nifer o brif feirdd Cymru, yn yr amser aeth heibio, heb eu hanrhydeddu yn y ffordd hon. Un ohonynt ydoedd Ceiriog, un arall ydoedd Islwyn. Ystyrir y ddau, bellach, yn mysg awenyddion penaf ein gwlad, ac y mae

gwyr cymhwys i farnu yn cyfrif rhai o ganeuon Ceiriog, a rhai o bryddestau Islwyn, yn geinion ein llenyddiaeth farddonol. Ond yn herwydd caethder y mesurau gwarantedig — "porth cyfyng" y pedwar mesur ar hugain, cawsant eu hamddifadu o anrhydedd y gadair. Yr oedd darlithydd poblogaidd, yn ddiweddar, yn "diolch i'r nefoedd" nad ydoedd Islwyn wedi ennill cadair yr Eisteddfod. Prin y gallwn ddodi ein Hamen wrth y gosodiad. Yr ydym yn hytrach yn gofidio fod yr Eisteddfod, oherwydd culni ei rheolau, wedi colli y cyfle i roddi parch i'r sawl yr oedd, ac y mae parch yn ddyledus. Yr un pryd, parod ydym i gyffesu fod Cymru wedi ei breintio â darnau godidog o farddoniaeth dan oruchwyliaeth gyfyng y gynganedd, er na chafodd yr oll, hwyrach y goreuon o honynt, ddim eu hanrhydeddu â chlod y gadair. Y mae "Elusengarwch" Dewi Wyn; "Dinystr Jerusalem" Eben Fardd;

4

"Creadigaeth" Emrys; "Rothsay Castle" Caledfryn; "Heddwch" Hiraethog; "Rhagluniaeth" Tafolog, &c., i'w rhestru yn mysg gemau yr iaith.

Golygfa ddyddorol, gofiadwy, fel rheol, ydyw cadeiriad y bardd. Y mae môr o wynebau yn amgylchynu y llwyfan. Y mae y pryder yn dwyshau fel y mae y feirniadaeth yn mynd rhagddi. Dywedir fod yna bedwar—tri—dau—yn rhagori. Y mae y glorian yn ysgwyd yn betrusgar am enyd; ond, dyna y fantol yn troi, a ffugenw y buddugol yn cael ei floeddio uwch ben y dorf. Dyna rywun yn codi yn y seddau cefn, clywir mil o leisiau yn ymholi—Pwy ydyw? Y mae y seindorf yn chwareu ymdeithgan y concwerwr. Dyna'r bardd ar y llwyfan. Arweinir ef yn ofalus i ymyl y gadair. Noethir y cledd uwch ei ben, a gofynnir y cwestiwn holl-bwysig,—"A oes heddwch?" Ac wedi cael atebiad boddhaol

gan y gwyddfodolion, gweinir y cledd, caniateir i'r cystadleuydd ffodus eistedd yn ei gadair, a chyhoeddir ef yn brif-fardd y flwyddyn.

Ond y mae wedi digwydd cyn hyn fod y bardd buddugol wedi gado y byd cyn i ddiwrnod y cadeirio ddod. Felly y bu yn nglyn âg Eisteddfod Gwrecsam,—yr hon a gofir fel Eisteddfod Y GADAIR DDU. Nis gall neb oedd yn bresennol anghofio'r olygfa. Darllenwyd y feirniadaeth fel arferol. Cyhoeddwyd ffugenw yr ymgeisydd llwyddiannus, ond nid oedd yno lef na neb yn ateb. Hysbyswyd yn mhen enyd mai y buddugol ydoedd Taliesin o Eifion,—yntau fardd gloew yn farw'n ei fedd! Dodwyd amlen o frethyn du ar y gadair; galwyd ar Edith Wynne i ganu un o alawon wylofus Cymru. Daeth hithau ymlaen ar y llwyfan, a dechreuodd ganu nodau lleddfol, hiraethus, "Dafydd y Garreg Wen." Meddiannwyd y dyrfa gan ryw deimlad

dystaw, dwys; llifai deigryn dros lawer grudd; gorchfygwyd y gantores enwog ei hun, a gorfu iddi eistedd ar ganol y gân. Y mae yna lawer adgof, dyddan a phrudd, yn gysylltiedig â chadair y bardd.

### II. CADAIR Y GOLYGYDD.

Cadair anweledig i'r cyhoedd ydyw hon, ond y mae ei dylanwad yn fawr a chynyddol. Ychydig mewn cydmariaeth sydd yn gwybod nemawr am ochr fewnol bywyd newyddiadurol ein teyrnas. Mae'n hysbys fod swyddfa newyddiadur yn lle rhyfedd. Yn mysg pethau eraill, y mae yno fôd a adwaenir fel d——l y wasg. Efe sydd yn cyflawni pob drwg; yn cymysgu llythyrenau, yn torfynyglu ysgrifau, ac yn gwneyd troion angharedig â gohebwyr diniwaid. Y mae yno wr arall a elwir yn foesgar wrth yr enw "Mr. Gol." Credir fod ganddo dri pheth yn amgylchynu ei bersonoliaeth ddirgeledig, nid amgen, bwrdd, basged, a

chadair. Un o'r pethau cyntaf y daw gohebydd i wybod am dano ydyw y bwrdd,—bwrdd y golygydd. Y mae hwnw yn llawn, fel rheol, nid o drugareddau, ond o ysgrifau o bob rhyw fath. O dan y bwrdd y mae basged—y Fasged, ac y mae yna ryw gymundeb dirgelaidd cyd-rhwng y naill a'r llall. Y mae y fasged ddidostur hon wedi bod yn feddrod anamserol i lawer cân ac ysgrif fuasent, ond cael chwareu teg, wedi dod yn anfarwol.

Ond y peth penaf ydyw y gadair,—cadair y Golygydd. Dyna ganolbwynt awdurdod; y mae gair y gadair hon yn derfynol. Oddiyma y mae y newyddiadur yn derbyn ei gyfeiriad a'i nod. Ac i bawb sydd yn ymsyniol o ddylanwad y wasg, fe gydnabyddir ei fod o'r pwys mwyaf i'r gadair hon gael ei llanw gan wŷr egwyddorol a chraff. Y mae erthyglau y "papyr newydd," llef ddystaw fain y wasg ddyddiol ac wythnosol, yn meddu dylanwad

aruthrol. Dyna un peth sydd yn cysylltu difrifwch a chadair y golygydd. Dylanwad amhersonol ydyw, i raddau pell, ond y mae yn ddylanwad er hyny. Y mae y gynulleidfa sydd yn darllen ac yn astudio y bregeth yn fwy, lawer pryd, nac eiddo y darlithydd cyhoeddus mwyaf poblogaidd. Ac y mae temtasiynau y swydd yn gryfion ac yn danbaid. Hud-ddenir y newyddiadurwr, drwy gyfrwng aur ac arian, i ddarn-gelu ffeithiau, ac i werthu ei gydwybod er mwyn gwobr. Ond y mae genym wyr wrth lyw y wasg nas gellir eu prynu yn y modd hwn. Y mae Mr. Fred. A. Atkins, yn un o'i lyfrau dyddorus, yn adrodd hanes George Jones, perchenog y *New York Times*. Yr oedd yn gyfaill i Horace Greeley, yr oedd y ddau yn cychwyn eu prentisiaeth tua'r un adeg. Argraffwyr oeddynt, ac ymladdasant frwydr galed ag anffodion boreu oes. Daeth y ddau i New York, a gwnaethant


iddynt eu hunain enw arhosol ar faes newyddiaduriaeth Americanaidd. Daeth George Jones, yn olygydd a pherchen y *Tribune*, a phrofodd ei hun yn wr egwyddorol a diofn. Yr oedd twyll masnachol yn cael ei ddwyn ymlaen yn ddirgelaidd yn y blynyddau hyny dan yr enw "*Tweed ring*." Daeth y ffeithiau i ddwylaw George Jones, a phenderfynodd eu dadlenu ger bron y byd. Yn y cyfamser, anfonwyd un o swyddogion cudd y *ring* at y newyddiadurwr, a chynygiodd iddo filiwn o ddoleri, ar yr amod iddo beidio cyhoeddi y ffeithiau oedd yn ei feddiant. Miliwn o ddoleri, ddarllenydd. Dyna y *bribe* fwyaf y mae hanes am dani, ond cafodd ei gwrthod, gyda diystyrwch, a chyhoeddwyd y dadleniad cywilyddus yn y *Tribune* fore drannoeth. *Well done*, George Jones. A oedd yn Gymro nis gwyddom. Gobeithiwn ei fod. Gwyddom am wr arall sydd wedi aberthu swydd golygydd, oedd yn

cynwys cyflog o ddwy fil o bunnau yn y flwyddyn yn hytrach na chefnogi llenyddiaeth y "gamblo" yn y newyddiadur oedd o dan ei ofal. Dynion o'r egwyddorion hyn ddylai fod yn llanw cadair y golygydd yn mhob swyddfa newyddiadurol o fewn y deyrnas. Pe ceid hynny, deuai y newyddiadur ar bob achlysur, yn bregethwr cyfiawnder, ac yn apostol purdeb.

### III. CADAIR YR AWDWR.

Nid ydyw hon yn gadair swyddogol. Y mae yn haeddu ei hanrhydeddu ar gyfri'r ffaith fod rhywun wedi bod yn ei defnyddio i ysgrifenu yr hyn nad â i dir anghof; rhyw ddernyn llenyddol sydd yn cael ei ddarllen, eilwaith a thrachefn, gyda mwynhad. Dyna gadair John Bunyan, lle yr ysgrifennwyd y breuddwyd anfarwol; cadair Walter Scott, lle yr ysgrifennwyd rhamantau cynhyrfiol y canol-oesoedd; cadair Carlyle, lle y bu efe yn

chwysu ei ymenydd gyda'r traethodau cawraidd hynny sydd wedi cynhyrfu ac angerddoli cynifer o feddyliau eraill. A oeddynt yn gadeiriau drudfawr ac addurniadol? Nac oeddynt. Cadeiriau celyd, plaen, oeddynt, wedi eu bwriadu nid i helpu dyn i gysgu, ond i'w gadw yn effro. Yr ydym yn falch o gael ymollwng i'r gadair esmwyth ar ddiwedd y dydd, pan wedi blino, ac yn lluddedig gan y




daith. Ond nid oes neb hyd yma wedi llwyddo i wneyd gwaith bywyd oddiar *easy chair*.

Yn nghofiant y diweddar Stowell Brown, ceir y cynghor a ganlyn:—"Gochelwch yr esmwythfainc." I efrydydd y rhoddwyd y cynghor ar y dechreu, ac y mae yn anhawdd

cael ei well. Anfantais i ddyn astudio ydyw presenoldeb y *sofa* a'r gadair esmwyth. I amcanion meddyliol y mae y bwrdd plaen a'r gadair galed yn llawer mwy pwrpasol. Os trown ein golwg i'r gorphenol, ni a gawn fod y llyfrau hynny sydd wedi gadael eu hargraff ar y byd,—y llyfrau na byddant feirw,—wedi eu cyfansoddi o dan amgylchiadau digon celyd. Nid oddiar *sofa* yr ysgrifenwyd Epistolau Paul; yn nghell oer a diaddurn y carchar y rhoddwyd ffurf i amryw o honynt. Cyfansoddodd Luther luaws o'i lyfrau tra yn garcharor yn nghastell y Wartburg. Dywedir mai mewn ystafell syml, heb ddim braidd ynddi ond bwrdd noeth a chadair dderw galed, y bu Jonathan Edwards yn llunio ei draethawd dyfnddysg ar "Ryddid yr Ewyllys." Gŵyr pawb mai yn ngharchar Bedford, heb un esmwythfainc yn agos ato, y bu Bunyan yn ysgrifenu ei freuddwyd anfarwol. Mae yn dra thebyg pe cawsai athrylith


y tincer ei suo i gysgu ar lythau y palas, y buasai y byd heb "Daith y Pererin." Mae yn hysbys ddigon mai ysgrifenydd diflin ydoedd John Wesley, eithr nid mewn *easy chair* yr oedd yn cyfansoddi, ond yn hytrach na cholli mynyd o amser, fe ysgrifenai ei feddyliau tra yn marchogaeth o'r naill dref a dinas i'r llall i bregethu efengyl y deyrnas. Nid oddiar esmwythfainc yr ysgrifenwyd hanes teithiau dyddorus Livingstone a Stanley, a llu o lyfrau eraill y gellid eu henwi. Mewn gair, y mae moethau yn angeuol i bob gorchest feddyliol. Rhaid cosbi y corff a'i ddwyn yn gaeth, os yw y deall a'r rheswm i gael chwareu teg. Pan yn myned i fyfyrgell ambell frawd, a gweled y *sofa* harddwych un ochr i'r ystafell, a'r gadair fraich ddofn, esmwyth, o flaen y tân, nis gallwn lai na meddwl am gynghor Stowell Brown,—Gochelwch yr esmwythfainc! I efrydydd, y mae honno fel Dalilah yn ei demtio i dreulio

ei amser mewn oferedd, a pha beth bynnag oedd ei allu neu ei ragoriaethau yn y gorphenol, daw yn fuan fel "gŵr arall." Nis gall "ymysgwyd" o flaen y cyhoedd megys cynt, a daw astudio yn faich ac nid yn fwynhad. Ac wrth y bechgyn diwyd hynny sydd yn ymroi i ddarllen a meddwl dan anfantais, y dywedwn,—Na chwenychwch yr esmwythfainc. Y mae yr awr a ysbeilir oddiar y duw dwl cwsg yn y boreu cyn myned at orchwylion y dydd, neu y seibiant a dreulir mewn ystafell ddiaddurn wedi i waith y diwrnod fyned drosodd, yn ddysgyblaeth feddyliol o'r fath oreu. Y mae amser a brynir yn ddrud fel yna yn sicr o ddwyn ffrwyth ar ei ganfed. Clywais aml i fachgen meddylgar o weithiwr yn dweyd,—"Beth pe cawn ddiwrnod cyfan i ddarllen llyfr? Beth pe buasai gennyf ystafell hardd a llyfrgell helaeth i mi fy hun!" Credai na fuasai dim yn sefyll o'i flaen; mai darllen a

myfyrio a wnaethai yn ddibaid. Ond, yn fynych, y mae dwy awr neu dair a gysegrir i astudiaeth o ganol gorchwylion bywyd, yn llawer mwy bendithiol i ddyn na meddu y pethau y mae llu o bobl ieuainc yn tybied mai hwy ydynt anhebgorion llwyddiant meddyliol. Gwell o lawer, fy nghyfaill ieuanc, i ti yn yr ystyr uchaf, ydyw yr ystafell gyffredin, y bwrdd bach, y ganwyll ddimai, y gadair galed, a'r ychydig lyfrau a ddarllennir gennyt yn awr, na phe y dodid di mewn ystafell wech, o flaen bwrdd *mahogany*, ac ar y *sofa* fwyaf melfedaidd y gellid meddwl am dani. Cred a chofia gynghor y dyn doeth a da a nodwyd yn barod. Melldith llu o efrydwyr yn y dyddiau hyn ydyw esmwythfeinciau.

Y GADAIR WAG. — Y mae yna ddarlun adnabyddus yn dwyn yr enw uchod,—"Y gadair wag." Cadair Charles Dickens ydyw, yn Gad's Hill. Nid oes dim yn hynod ynddi fel

dodrefnyn, heblaw y ffaith mai ynddi hi yr ysgrifennwyd y gweithiau hynny sydd wedi creu gwenau a thynu dagrau o lygaid myrdd.





Yn y gadair honno y cyfansoddwyd "David Copperfield," a "Bleak House." Yno y saernïwyd cymeriadau dihafal Pickwick, Weller,

Micawber, Oliver Twist, a Little Nell. Y mae oriel cymeriadau Dickens yn cynnwys cyd-gasgliad rhyfedd ac amrywiaethol, ac nid enwau dychymygol ydyw y rhan fwyaf ohonynt. Yr ydys yn teimlo eu bod yn sylweddau byw, ac yn dod i'w caru, neu eu cashau yn angerddol. Onid oes amryw o'r cymeriadau hyn, bellach, wedi dod yn enwau ystrydebol ar y dosbarth a gynrychiolid ganddynt? Do, bu cadair Dickens yn ganol-bwynt i ysbrydion drwg a da i gyd-grynhoi, a chafodd amryw ohonynt enw a nod a erys am lawer oes.

Ciliodd yr awdwr ohoni ryw brydnawn,—byth i ddod yn ol. Ac nid oedd neb fedrai lanw ei le. Cadair wag ydyw, ac a fydd y gadair honno mwy.

## *PENNOD V.*

## CADAIR YR AELWYD.




PRIF nodwedd y gadair hon ydyw anwyldeb a serch. Y mae yn perthyn iddi awdurdod, ond nid awdurdod noeth ydyw; awdurdod wedi ei wisgo â hyfrydwch. Nid athrylith, nid talent, sydd yn llywodraethu y gadair hon. Ei harwyddair ydyw tiriondeb a hynawsedd. Y mae adgofion boreu oes yn blethedig am dani fel yr eiddew am y pren. Cadair mam a thad, brawd a chwaer,—gymaint o stori bywyd sydd wedi derbyn ei hystyr o'r mannau hyn! Y

mae Eliza Cook wedi canu llawer dernyn a lithra i dir angof, ond y mae ganddi un gân, o leiaf, sydd i fyw,—"Hen Gadair Fraich fy Mam."

> I love it, I love it; and who shall dare
> To chide me for loving that old arm-chair?
> I've treasured it long as a sainted prize:
> I've bedewed it with tears, and embalmed it with sighs;
> 'Tis bound by a thousand ties to my heart;
> Not a tie will break, not a link will start,
> Would ye learn the spell? a *mother* sat there;
> And a sacred thing is that old arm-chair.

Nid oes odid yr un bardd wedi canu ei adgofion, heb fynd i'r gongl wrth y tân, lle yr oedd cadair yr aelwyd yn disgwyl rhywun adref gyda'r nos. Mor naturiol ydyw y desgrifiad canlynol gan Glan Alun:—

> Mi wela nhad mewn cadair freichiau fawr,
> (Mae'r gadair hon yn aros hyd yn awr)
> A'i goesau 'mhleth, a'i bibell yn ei law,
> Yn swyno pob gofalon blinion draw.

Yn mŵg y bibell bêr yn ddigon pell,
Tra sugnai drwy ei phig feddyliau gwell.
Eisteddai mam i wnio o flaen y tân,
Neu ynte i olrhain yr Ysgrythyr Lân.
Ac ambell air i nhad, neu sèn i mi
Am guro cefn y gath, neu dynu clust y ci ;
Fy mrawd a'm chwaer ar fainc, a rhwng y ddau
Y forwyn henaf oedd yn prysur wau,
Ychydig o'r naill du 'roedd llencyn brèc
Yn dysgu y forwyn fach yr A B C ;
A minnau ar fy stôl yn ddigon siwr
Rhwng mam a nhad, nid y distadlaf wr ;
Y tanllwyth mawr yn taflu siriol wres,
Nes oeddwn bron a mygu gan ei dês.
O maes fe glywir storm, gauafaidd swn,
Plith oeraidd fref y fuwch, ac udiad cŵn ;
Ffenestri a drysau gan y gwynt a gryn ;
Yn ngwỳll y nos fe welir eira gwyn,
A gwlaw a chenllysg mawr heb drugarhau
O bryd i bryd yn curo'r gwydr brau.
Ni wna y gwynt a'r gwlaw ac oll yn nghyd
Ond gwneyd teimladau'r teulu yn fwy clyd ;
Ar ol pob rhuthr fe grynhoa y rhes,
Yn nes yn nghyd, ac at y tân yn nes.
Yn fuan dygir yr hen Feibl mawr
A'i amgudd gwyrdd oddiar y silff i lawr ;
Fy nhad a'i gadach dỳn y mân-lwch draw
Oddiar ei spectol, yna gyda llaw

Ofalus, try ddalenau'r Beibl cu
Sy braidd yn waeth o'r mynych droi a fu.
Ac wedi darllen rhan o'r Dwyfol Air,
A sylw bychan arno, plygu wnair;
A nhad ddyrchafa ei grynedig lef,
Mewn gweddi a mawl teuluaidd tua'r nef.
Mi glywais fwy hyawdledd lawer trô,
Ond neb ni cherais ddilyn fel y fô;
Yn fyr, ond yn gynwysfawr, ac yn llawn,
O buraidd ysbryd, os nid mawredd dawn.

Ond o'r holl böetau, nid oes neb wedi ymdroi gyda'r aelwyd yn fwy na Longfellow. Bardd yr aelwyd ydyw ef; ac nid oes hyfrytach cwmni ar hirnos gauaf, pan y byddo dyn yn gweled gweledigaethau yn y fflam, ac yn clywed anthem yr ystorm yn ymdaith yn amlder ei grym. Yr aelwyd, ebai Longfellow, ydyw y Garreg Filldir Aur, a chanolbwynt serch ydyw y gadair ger y tân:—

Ar yr aelwyd yr eistedd henafgwyr methedig,
A gwelant adfeilion dinasoedd, yn lludw y marwor;
Gofynnant yn brudd,
I'r gorphenol am yr hyn na ddychwela.

Ar yr aelwyd yr eistedd breuddwydwyr ieuengaidd,
A gwelant gastelli aml-dyrog, ac euraidd binaclau,
Gofynnant yn syn,
I'r dyfodol am yr hyn na fedd iddynt.

Yr aelwyd yw'r aur garreg filldir,
Oddiyno mae dynion yn mesur
Pellderoedd y daith,
A throion maith bywyd o'u deutu.

Ar ymdaith bellenig mae dyn yn ei chanfod,
Mae'n clywed y gwynt yn rhuo'n y simddai,
Yn clywed yr ymgom,
Fel bu lawer cyfnos, sydd wedi diflannu.

Gallwn godi anneddau mwy gwych a godidog,
Gallwn lanw'r ystafell â dodrefn mwy costfawr;
Ond nid oes un golud
All brynu dedwyddyd,
All adfer adgofion claerwynion ein mebyd.

Longfellow, fel mae'n hysbys, a ganodd glodydd "Gof y Pentref:"—

Tan gastanwydden eang, saif
Yr "efail gof" pentrefol;
Y gof, grymus ol wr yw ef,
A dwylaw mawr gewynol,—
Cyhyrau'i freichiau cryf sydd fel
Ffunenau heyrn o nerthol.

Week in, week out, from morn till night,
  You can hear his bellows blow;
You can hear him swing his heavy sledge,
  With measured beat and slow,
Like a sexton ringing the village bell,
  When the evening sun is low.

Desgrifia y plant yn dychwelyd o'r ysgol ar brydnawn, yn cîl-edrych drwy ddrws yr efail, ac yn ymddigrifo gyda'r gwreichion,—

And children coming home from school
  Look in at the open door;
They love to see the flaming forge,
  And hear the bellows roar,
And catch the burning sparks that fly
  Like chaff from a threshing floor.

Ac yn mhen blynyddau lawer, pan oedd y bardd wedi croesi trothwy deg a thriugain oed, y mae plant y "pentref" hwnnw yn ei anrhegu â chadair wedi ei llunio o goed y pren,—y *chestnut tree*—a anfarwolwyd yn y gân. Y mae yntau yn ei derbyn, yn eistedd ynddi, ac am enyd y mae llanw Amser yn troi yn ol er mwyn

iddo weled golygfeydd y dyddiau gynt. Dyma ei brofiad ar y pryd, pan yn eistedd yn y gadair a anfonwyd iddo fel arwydd o serch y plant:—

I see again, as one in vision sees,
The blossoms and the bees,
And hear the children's voices shout and call,
And the brown chestnuts fall.

I see the smithy with its fires aglow,
I hear the bellows blow;
And the shrill hammers on the anvil beat
The iron white with heat.

And thus, my children, have you made for me,
This day a jubilee,
And to my more than three-score years and ten,
Brought back my youth again.

Y fath ydyw swyn cadair yr aelwyd yn mhob gwlad. Y mae'n dod, rywfodd, yn rhan o'n bywyd. Nid ydym yn teimlo yr un modd gydag unrhyw ddodrefnyn arall. Ond os bydd dyn yn trigiannu am ysbaid yn yr un ystafell, ond odid na fydd iddo gysylltu ei hun â rhyw gadair arbenig. Ei gadair ef ydyw. Nid ydyw

mor gysurus yn yr un arall. Y mae y gadair ac yntau yn ffurfio cyfathrach, yn dod i ddeall eu gilydd! Y mae yn ei chynyg, ambell waith, i ryw gyfaill fo yn galw, ond nid yw yn meddwl iddo ei chymeryd, ac os yn ddyn doeth nid ydyw yn debyg o wneyd hynny. Y mae yna ryw berthynas gyfrin yn ymffurfio rhwng dyn a'i gadair, sydd yn mynd yn gryfach, ac yn anwylach o hyd. "Nerth arferiad," meddir; eithaf posibl, ond fod yna ryw nerth ar waith sydd yn eglur i bawb. At hyn yr oedd y diweddar Fynyddog yn cyfeirio yn ei gân hapus i "Gartref." Yr oedd wedi bod ar grwydr, ond o'r diwedd, y mae yn dychwelyd i'r hen gynefin. Ac y mae yn credu fod pobpeth yn ei roesawu yn ei ffordd ei hun, y ci a'r gath, ie, a'r gadair lle yr eisteddai fin nos,—

Mae'r hen gadair hithau,
Yn estyn ei breichiau,
A bron a dweyd geiriau o gariad.

Gosodwn werth ar y gadair hon,—cadair yr aelwyd, cadair anwyldeb a serch. Ceisiwn ei llanw a'i phriodoleddau dymunol ei hun. Dichon fod yna lawer o gadeiriau na chawn y fraint o eistedd ynddynt. Ychydig sydd yn llwyddo i esgyn i gadair anrhydedd ac enwogrwydd, ond y mae cadair yr aelwyd yn agos atom, ac yn gyfleusdra rhagorol i ddadblygu yr ochr oreu i gymeriad, rhinweddau y galon, tiriondeb, a serch. Os gwneir hynny yn y blynyddau sydd yn dod, fe gedwir dylanwadau bywiol a phur yn ein gwlad.

Y mae llwyddiant y gyfundrefn addysgawl sydd wedi ei sefydlu yn ein plith yn dibynu i fesur mawr ar nodwedd yr addysg a gyfrennir o gadair mam a thad. Y mae rhyw ddylanwad, da neu ddrwg, sydd ymron yn annileadwy, yn cael ei gyfrannu yn y llanerch gysegredig hon. Pan y mae blagur serch ac edmygedd yn dechreu ymagor, pan y mae y meddwl yn

dyner ac iraidd,—dyna'r pryd y mae gwersi'r aelwyd yn diferu eu balm neu eu wermod ar y galon a'r côf. Os bydd addysg tad yn yr adeg hon yn "addysg dda;" os bydd deddf yr aelwyd yn "gyfraith trugaredd a gwirionedd," yna gellir disgwyl i'r sawl a feithrinir dan ei dylanwad ddod i garu doethineb, ac i ymhyfrydu yn llwybrau deall. Y mae cadair mam yn sedd frenhinol; y mae'n perthyn iddi deyrnwialen a choron. Teyrnwialen aur cariad a hynawsedd, ac nid gwialen haiarn gorfodaeth a gerwindeb. Tra y cedwir y gadair deuluaidd yn gysegredig i burdeb a rhinwedd, yna bydd awdurdod y "goron" yn ddiogel. Coronir ymdrechion yr aelwyd ag ufudd-dod a pharchedigaeth, ac nis gall ysbryd yr oes ddenu y Cymro ieuanc i wadu addysg tad, nac i ymado â chyfraith ei fam.

Ac yn yr ystyr hwn, cadair yr aelwyd ydyw yr uwchaf, yr ardderchocaf o'r oll. Hon yw y

gadair bennaf. Y mae anrhydedd, awdurdod, ac anwyldeb yn cyd-ymgrymu uwch ei phen fel y cerubiaid uwchben y drugareddfa. Ac wedi i'r anwyliaid fuont yn eistedd ynddi gael eu galw i wlad yr angel a'r delyn, y mae rhyw ysbryd gwyn yn sibrwd am danynt, fel y dywed Islwyn am ei fam:—

Ai breuddwyd mawr ei rin,
A gefais wrthyf f'hun,
Ai rhyw gerûbiaidd lûn
A welais fry?
Un fraich o dan fy mhen,
A'r llall fyth tua'r nen
Yn gofyn bendith wen
A rhad i mi.

Arhosed cadair yr aelwyd yn Nghymru, megis y mae wedi bod mewn cannoedd o gartrefi cyffredin a diaddurn,—arhosed eto yn orsedd, yn allor, ac yn ffynhonell mwynhad. Yna, gellir cymhwyso llinellau Dewi Wyn at y rhai a fegir o'i deutu,—

Uwch, uwch, uwchach yr êl,
Dringed i gadair angel.

# CADAIR ANGEL.

## CADAIR ANGEL.

"Ar ei ol, cyfododd Robert Roberts. Yr oedd difrifoldeb ofnadwy ar ei wynebpryd. Darllenodd ei destyn. Ymddangosai ar y cyntaf braidd yn bryderus. Siaradai yn llai manwl nag y byddai yn arfer gwneyd. Yn raddol, y mae ei ddawn yn rhwyddhau, ei lais yn clirio, a'r olwg arno yn dyfod yn fwy-fwy difrifol. Y mae yn myned rhagddo, ac yn cymeryd gafael yn enaid yr holl gynulleidfa,—y mae rhai yn llewygu, y lleill yn gwaeddi, ac yntau a'i lais fel udgorn Duw yn treiddio drwy y lle. Ar hyn, neu rywbryd yn ystod yr oedfa, dyna y bachgen arall yn troi at Elias Parry, ac yn gofyn iddo, a'i wynebpryd yn welw fel corph marw,—'Dyn ydi o, fachgen, ynte angel?' 'Ond angel, fachgen, wyddet ti ddim?' 'Na wyddwn i, yn wir; bobl anwyl, ond ydi angel yn well pregethwr o lawer na dyn!'"—*O. Thomas, D.D.*

"Fel angel yn rhodio dros fwa y cwmwl,
  A'i fys yn cyfeirio yn union i'r nef,
A'i fantell fel boreu o aur ar y nifwl,
  A nerthoedd y nefoedd i gyd wrth ei lef:
Fel hyny y rhodiai y pennaf areithydd
  Dros nef yr athrawiaeth, y bŵa o waed,
A coed i rychwantu y duon wybrennydd,
  Yr eigion rhwng daear a nefoedd a gaed."—*Islwyn.*

Dro yn ol, ymddangosodd hanes haf-daith i Glynnog mewn cyhoeddiad misol. Adolygwyd yr ysgrif gan henafgwr o Arfon, a dywedai ei fod wedi ei daro â syndod oherwydd nad oedd

ynddi un crybwylliad am "Robert Roberts," y seraph-bregethwr a roddodd fawredd anniflanedig ar bentref tawel Clynnog. Yr oedd y sylw yn cynwys beirniadaeth deg, er mai pwrpas llenyddol yn fwyaf neillduol oedd i'r ysgrif. Ac eto nid "Clynnog" yr ymdeithydd damweiniol hwnnw ydoedd "Clynnog" Robert Roberts, yn ystyr fanwl y gair. Mae'n wir fod ei farwol ran yn gorwedd yn mynwent Beuno, ond treuliodd ei yrfa fer, hynodlawn, ar un o lechweddau y fro, yn y fangre wledig a adwaenir fel "Capel Uchaf;" ac yno y cedwir y *relic* sydd yn cael ei gyfleu mewn darlun gerbron y darllenydd ar y dalennau hyn,—

CADAIR ROBERT ROBERTS.

Cyn gwneyd dim sylw pellach ar y dodrefnyn oedranus, ond dyddorol hwn, manteisiol fyddai crybwyll ychydig o ffeithiau cysylltiedig â hanes y gŵr fu unwaith yn berchen y gadair, a osododd y fath fri arni, fel y mae caredigion



CADAIR Y PARCH. ROBERT ROBERTS, CLYNNOG

*(Y darlun gan R. O Roberts, Cyfreithiwr, Caernarfon).*

yr achos wedi ei chadw yn barchus er's yn agos i gan' mlynedd, er cof am dano.

Ganwyd ef yn mis Medi, 1762, yn Ffridd-bala-deulyn, annedd ddiaddurn yn un o gymoedd Nantlle. Yr oedd yn un o dri-ar-ddeg o blant. Chwarelwr oedd ei dad, ac yn gynar iawn ar ei oes, gorfu i'r bachgen ddechreu ennill ei fywioliaeth yn nghloddfa y Cilgwyn. Cafodd hyfforddiant crefyddol da ar aelwyd ei nain, ond wedi tyfu'n llanc collodd y dylanwadau hyn eu gafael, am ysbaid, ar ei feddwl. Ymollyngodd i fywyd penrydd ac anystyriol. Ni pharhaodd y cyfnod hwn yn hir. Yn y flwyddyn 1779, daeth yr efengylydd pereiddfwyn "Jones o Langan" i bregethu i Frynrodyn, ar nawngwaith yn yr haf. Pregethai ar destyn tra nodweddiadol o'i ysbryd a'u ddawn.—"Trowch i'r amddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol." Yr oedd Robert Roberts, wedi dod i'r oedfa, trwy berswâd ei frawd, John (y Parch. John

Roberts, Llangwm, wedi hyny). Aeth saeth oddiar fwa gwirionedd i'w galon. Bu am wythnosau yn mhangfeydd argyhoeddiad, ond fe droes i'r "amddiffynfa," a gwawriodd cyfnod newydd ar ei fywyd. Cefnodd ar y chwarel, ac ymsefydlodd fel gwas fferm yn Eifionydd. Ymaelododd yn Eglwys Brynengan. Nid oedd wedi cael dim manteision addysgawl, ond yn y blynyddau hyn ymroddodd i ddiwyllio ei feddwl, ac i gymhwyso ei hun, yn ddiarwybod, ar gyfer y dyfodol dysglaerwych oedd yn ei aros. "Yr oedd yn ymroddi i ddarllen; yn hoff iawn o wrando pregethau; yn arfer ysgrifennu y pregethau a wrandewid ganddo, o'i gof, yn fanwl ar ol myned adref; yn myned yn gyson, ddwywaith neu dair neu bedair yn y flwyddyn, i Langeitho, gyda hen grefyddwyr eraill o gymydogaeth Brynengan, i wrando Mr. Rowland, ac i'r cymun sanctaidd; ac yn cofio, yn ysgrif-

ennu, ac yn adrodd ei bregethau braidd yn gyflawn."

O ran ei ddyn oddiallan, yr ydoedd, yn yr adeg hon, yn ŵr ieuanc tal, lluniaidd, ystwyth-gryf, a dysglaerdeb athrylith yn pelydru yn ei lygaid. Ond daeth cyfnewidiad drosto,—cyfnewidiad a effeithiodd ar ei ymddangosiad dros weddill ei oes. Gostyngwyd ei nerth ar y ffordd. Yn nghanol ei ireidd-dra a'i nerth, ymaflwyd ynddo gan afiechyd blin. Bu yn dihoeni, rhwng bywyd a bedd, am fisoedd, a phan ddaeth yn abl i symud o'i orweddfa, prin y gallai ei gydnabod gredu mai yr un gŵr ydoedd. "Yr oedd golwg ryfedd arno; yr oedd rhyw grebychiad ar ei ewynau, ac ar amwydyn ei gefn, nes ei wneyd yn grwcca hollol o ran ei gorph; ac felly y bu holl ystod ei weinidogaeth, ac hyd ddiwedd ei ddyddiau."

Ond er llygru y dyn oddiallan, ac er colli yr addurn a feddai gynt, yr oedd llewyrch ei

athrylith eneiniedig, i wedd-newid y tabernacl daearol i'r fath raddau, nes y byddai dynion, ar brydiau, yn meddwl mai angel Duw oedd yn llefaru wrthynt. Wedi ei wisgo â'r nerth o'r uchelder, byddai rhyw ogoniant anghydmarol yn disglaerio yn ei wynebpryd, ac yn trydanu ei ymadroddion.

Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1787, pan ydoedd yn 25 mlwydd oed, yn nghanol gwres diwygiad. Yn ystod blynyddau cyntaf ei weinidogaeth, bu yn cadw ysgol Gymraeg mewn amryw barthau yn Eifionydd, ond yn herwydd y galwadau lluosog oedd yn y wlad am dano, rhoddes yr ysgol i fyny, ac ymsefydlodd yn nhy'r capel,—Capel Uchaf, Clynnog, ac yno y bu hyd derfyn ei oes. "Fe dynodd ei weinidogaeth, braidd ar unwaith, sylw cyffredinol, a daeth yn fuan y pregethwr mwyaf poblogaidd yn Nghymru. Yr oedd rhywbeth ynddo fel pregethwr ag y

mae yn amhosibl ei ddarlunio, a rhywbeth nas gallwn ni . . . . . ffurfio prin un dychymyg am dano. Tystiolaeth pawb ar ai clywsant yw, na chlywsant neb cyffelyb iddo. Yr oedd y fath rwyddineb yn ei ddawn, y fath angerddoldeb yn ei deimlad, y fath fywiogrwydd a nerth yn ei ddychymyg, y fath amrywiaeth yn ei lais, a'r fath allu ganddo i'w daflu ei hunan yn gwbl i'r mater a fyddai ganddo dan sylw, nes y byddai yr effeithiau ar y cynulleidfaoedd yn hollol drydanol. Ar adegau felly, byddai golwg ryfedd arno ef ei hunan,—byddai dan gynhyrfiadau ofnadwy. Weithiau byddai ei lygaid yn melltenu nes gwneyd braidd yn amhosibl edrych arno; weithiau fe'i canfyddid yn sirioli nes rhoddi gwên ar bob wyneb; ac, yn amlach, byddent yn ffynonau o ddagrau, nes cynyrchu wylo cyffredinol drwy y gynulleidfa. Pa beth bynag fyddai pwnc y bregeth, fe'i datguddiai ei hunan yn agweddau ei wynebpryd,

yn ysgogiadeu ei gorph, yn nhôn ei lais, yn gystal ag yn netholiad ei eiriau, a ffurfiad ei frawddegau, nes peri i'r gwrandawyr nid yn unig ei ddeall, ond ei deimlo."

Dywed yr un awdwr yn mhellach, wrth symio i fyny ei ddesgrifiad godidog o "seraph-bregethwr" Cymru,—"Pymtheg mlynedd a fu parhad ei dymhor gweinidogaethol; ac yn yr ysbaid byr hwnnw, er holl anfanteision amgylchiadau isel, amddifadrwydd hollol o ddysgeidiaeth athrofaol, ac ymddangosiad allanol eiddil ac anolygus, fe adawodd argraph mor ddwfn ar feddwl ei genedl, fel y mae ei enw yn air teuluaidd hollol gan filoedd lawer ohonynt, yn mhen 70 mlynedd [95 mlynedd, bellach], wedi ei gladdu. Yn y bywyd, y teimlad, y grym,—ac yn enwedig yn y dull drychebol, neu pa air Cymraeg a gawn am dano (*dramatic*), tra effeithiol, ag sydd i fesur yn hynodi y Pulpud Cymreig eto, yr oedd arbenig-

rwydd neillduol yn ngweinidogaeth Robert Roberts, Clynnog."

Ië, dim ond pymtheg mlynedd o fywyd cyhoeddus, ac eto i gyd, wedi cerfio ei enw yn anileadwy ar hanes pulpud a chrefydd Cymru. Bu farw yn mis Tachwedd, 1802, yn 40 mlwydd oed. Nid oes ond careg las, seml, ar ei feddrod yn mynwent y plwy', ond y mae'n gerfiedig arni bedair llinell gynwysfawr o eiddo Eben Fardd,—llinellau sydd yn grynhodeb o nodweddion y gwr y bydd Cymru am lawer oes yn chwenych ei anrhydeddu :—

Yn noniau yr eneiniad,—rhagorol
Fu'r gwr mewn dylanwad ;
Seraph, o'r nef yn siarad,
Oedd ei lun yn ngwydd y wlad.

Dichon y daw ton o frwdfrydedd cyn bo hir, yn nglyn ag enwogion Arfon, ac y codir cofgolofn hardd i fytholi hanes Robert Roberts, megis y gwnaed eisoes â rhai o'i gyd-oeswyr.

Yn y cyfamser, boed i bobl dda Clynnog gadw gwyliadwriaeth serchog ar ei orweddfa. Na chaffed adfeiliad nac esgeulusdra hacru beddrod gwr Duw.

Ond er mai yn Nghlynnog y gorphwys ei weddillion, nid yno yr oedd ei gartref, eithr mewn ardal lonydd ar y bryniau cyfagos, a adwaenir fel Capel Uchaf. Y mae yn agos i ganrif er hynny, ac nid ydyw Capel Uchaf y dyddiau diweddaf hyn yn debyg i'r hyn ydoedd yn ei amser ef. Nid oes yno ddim o'r braidd yn tystiolaethu am dano,—dim cof-len ar y mur, dim llyfr nac ysgrif—dim ond y dodrefnyn yr ydym eisioes wedi crybwyll am dano,—cadair y prophwyd. Nis gwyddom am ba hyd y bu yn ei feddiant, na pha faint o ddefnydd a wnaeth efe ohoni. Yr ydoedd yn treulio llawer o amser oddicartref, ar deithiau pregethwrol, ond pan yn ei gynefin, yn darllen ac yn parotoi ar gyfer y pulpud, deallwn mai dyna ei gadair ddewisol

ar yr aelwyd. Ar y cyfrif hwn, y mae yn gräir *(relic)* gwerthfawr. Y mae amryw o enwogion Cymru, o bryd i bryd, wedi bod yn ei gweled, ac nid oes un amheuaeth am ei dilysrwydd. Dilynwn eu hesiampl, a cheisiwn gynorthwy gwerthfawr y *camera* i'w dodi, fel y mae, gerbron y darllenydd.

* * * * *

Cyrhaeddasom bentref Clynnog ar foreu tyner yn Medi, 1897. Yr oedd gwenau yr "haf bach" yn sirioli y llechweddau. Cawsom gwmni a hyfforddiant "esgob" presennol Capel Uchaf, a dechreuasom ddringo'r bryn. Yr oedd y mwyar duon yn dryfrith ar ochrau y clawdd, ac anhawdd oedd gwrthsefyll y demtasiwn i wledda arnynt, yn hytrach nac ymlwybro ymlaen. Wedi dringo encyd, ar hyd ffordd gul, a'r hin yn frwd, daethom i ben y bryn, ac yr oedd yr awel mor falmaidd, fel yr oedd yn rhaid gorphwys, oherwydd yr oedd

yr esgob eisioes yn lluddedig gan y daith. Aethom ymlaen eilwaith, ac wedi pasio rhai amaethdai bychain, taclus, daethom i olwg y "Capel." Saif ar fin y ffordd, ac y mae nifer o dai annedd gerllaw. Dyma'r trydydd addoldy er adeg dechreuad yr achos yn yr ardal neillduedig hon. Adeiladwyd y capel cyntaf yn 1761—blwyddyn cyn geni Robert Roberts. Nid oes dim o'r addoldy hwnnw yn aros er's llawer dydd. Ond dywed traddodiad yr ardal fod y capel hwnnw a'r ty capel yn un adeilad—yr un muriau oedd i'r oll. Cynwysai y ty capel ddwy ystafell—un yn gegin ac yn barlwr, a'r llall yn ystafell wely. Yr oedd y ddwy ar yr un llawr, ac uwchben yr oedd math o oriel perthynol i'r capel. I'r ty capel hwn y daeth Robert Roberts i fyw yn gynar ar ei oes weinidogaethol. Yma y bu hyd y diwedd. Nid ydoedd ond lle digon cyffredin a diaddurn—dim ond dwy ystafell ar lawr. Pa le yr oedd y *study*, tybed?

Hawdd credu mai y capel ei hun oedd llyfrgell ac efrydfa y pregethwr seraphaidd. Yno yr ydoedd yn gallu galw y gynulleidfa ger ei fron, pan y mynnai, ac yr oedd ei fyfyrdodau wedi eu bwriadu, nid i'w hysgrifenu yn gymaint, ond i'w traethu, i'w tywallt yn rhaiadrau crychwyn ar gydwybodau y gwrandawyr. Gwelwyd llawer golygfa gofiadwy yn yr hen gapel, gyda'i feinciau celyd, a'i lawr pridd. Clybuwyd yno lais gorfoledd a chân,—swn diwygiadau grymus y ganrif o'r blaen. Adgofiai yr hen wrandawyr am Robert Roberts, fwy nac unwaith, yn cael ei orchfygu gan yr olygfa, yn disgyn o'r pulpud, yn gorfoleddu ar lawr y capel, ac yn cael ei gludo, mewn haner llesmair i'r gadair fraich yn nhy'r capel. Bu y babell gyntaf yn sefyll am hanner canrif, pryd y gwelwyd yn anghenrheidiol i estyn y cortynau. Adeiladwyd yr ail deml yn 1811, yn mhen naw mlynedd wedi marw Robert Roberts. Yr oedd 1811 yn un o flyn-

yddau mawr y Cyfundeb Methodistaidd. Dyna flwyddyn yr ordeinio cyntaf yn y Bala. Ni chafodd seraph Clynnog weled gwawr y cyfnod hwn yn hanes ei enwad. "Pregethwr" yr Efengyl, ac nid "gweinidog" sydd ar gareg ei fedd. Cafodd efe ei urddo, nid drwy osodiad dwylaw, ond drwy nerth y Bywyd anherfynol oedd ganddo i'w gyhoeddi i'r byd. "Yn noniau yr Eneiniad" y cafodd efe ei arwisgo, a'i wneyd yn weinidog cymhwys y Testament Newydd. Ond son yr oeddym am yr ail addoldy. Bu y saint yn mynd a dyfod i hwnnw am yr ysbaid o 69 mlynedd, hyd 1870, pan y codwyd y capel presennol. Ond ni chafodd yr ail deml ei chwalu fel y gyntaf. Y mae yn aros hyd y dydd hwn, ac wedi ei gwneyd yn "dŷ capel." Mewn parlwr bychan, o fewn y ty hwn, y cedwir y "gadair," fel yr "arch" yn nhy Obededom gynt, ac y mae pob pregethwr—bydded fach neu fawr,

yn cael y fraint o eistedd yn nghadair Robert Roberts.

* * * * *

Tra byddo ein cyfaill "Zenas, y cyfreithiwr" yn gwneyd trefniadau i ddod a'r gadair i'r awyr agored, ac yn gosod y *camera* yn ei le, awn allan i fwynhau yr olygfa. Y mae'r nawn yn deg, a'r awyr yn glir. O un cyfeiriad yr ydym yn gweld y mynyddau,—cadwen yr Eryri. Y mae'r Wyddfa'n ddiorchudd, a mwg yr agerbeiriant yn cyrlio ar hyd ei hystlysau, ac uwchben ei cheunentydd. Anhawdd meddwl am lecyn mwy manteisiol i weld y Wyddfa, pan y bo yn ddigon graslawn i ddatguddio ei hun. Yn y pellder y mae Moel Siabod fel pyramid pigfain. Gorwedda y Mynyddfawr ar yr aswy. Ar y dde, y mae y Migneint, ac onibae am y Foel sydd yn codi ei hysgwyddau o'n blaen, buasem yn canfod Dyffryn Nantlle. O gyfeiriad arall yr ydym yn gweled ardal boblog Penygroes, a

gwastadeddau coediog Llandwrog, yn nghyda darn glasliw o gulfor Menai. Golygfa gyfoethog, amrywiaethol, mewn gwirionedd, — golygfa fuasai'n ysbrydoli unrhyw un allai deimlo oddiwrth ddylanwadau Anian. Ac y mae hon yn aros fel yr oedd yn nyddiau Robert Roberts,— "aros mae'r mynyddau mawr." Os mai cyffredin oedd annedd y seraph-bregethwr, er nad oedd ganddo nemawr ddim o foethau celfyddyd, —dim darluniau costfawr ar furiau ei ystafelloedd — dim cywreinion o wledydd pell, — pa wahaniaeth? Nid oedd raid iddo ond ymlwybro ychydig o'i fyfyrgell i weled golygfa nad yw byth yn heneiddio. Gwelai arddunedd crëad Ior. Edrychai ar y wawr yn tori ar grib y mynydd, ac yn ymwasgaru i'r dyffrynoedd. Gwelai ogoniant machlud haul yn goreuro y weilgi, a ser y cyfnos yn pefrio ar y gorwelion pell. Hawdd yw son am gyfleusderau y dref, a manteision y llyfrgelloedd cyhoeddus, ond fel

mangre y gryfhau egnion corph a meddwl, ac fel lle i weled gweledigaethau Duw, anhawdd fuasai synio am le mwy çymwys na'r llanerch fu un adeg, yn gartref Robert Roberts.

Y mae mynwent, ar lecyn heulog, gerllaw y capel. Bellach, y mae llu o bererinion yr ardaloedd yn gorphwys o dan ei phriddellau. Tyf blodau gwylltion yn mysg y beddau, tywyna yr haul yn danbaid ar y meini, nes y mae'n anhawdd credu ambell funud ein bod yn rhandir angeu. Yn mysg y bedd-rodau gwelsom eiddo y Parch. William Roberts, Hendre bach,—William Roberts, Clynnog. Esboniodd lawer ar y prophwydoliaethau, a bu yn dadleu'n gryf ar Fedydd, gyda'r diweddar Barch. Robert Jones, Llanllyfni. Bu farw yn y flwyddyn 1857, yn 84 mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am dros haner canrif. Cerfiwyd englyn o eiddo Eben Fardd ar ei fedd. Dyma fe:—

Pregethwr, awdwr ydoedd,—agorwr,
Geiriau glân y nefoedd;
Pur hoff yw dweyd,—proffwyd oedd,
Yn llewyrch ei alluoedd.

Yn 1863, bu farw John Owen, Henbant bach, yn 93 oed. Yr oedd yn gyd-weithiwr â Mr. Charles o'r Bala, ac yn sylfaenydd yr Ysgol Sabbothol yn yr ardaloedd. Dyna'r dystiolaeth sydd ar ei fedd, wedi ei saernïo gan Dewi Arfon :—

Y Selyf hwn fu'n sylfaenu,—yn ein brô
Gyda'r brawd Charles fwyngu,
Yr Ysgol Sabothol: bu
Enaid hon wedi hynny.

Yma hefyd, y gorphwys y ffraethbert a'r gwreiddiol Owen Owens, o Gorsywlad, Bwlch Derwyn. Y mae ugeiniau o'i ddywediadau yn aros ar gof gwlad. Bu farw yn 1877—yr un oed a'r ganrif —wedi gwasanaethu y swydd o ddiacon am haner cant o flynyddoedd. Cyfansoddwyd ei feddargraph gan Tudwal, fel y canlyn :—

Gwas gwiw Iesu gwsg isod,—ef oedd ŵr,
Feddai eiriau parod;
Gwres ei ddawn wnai'r "Gors" ddinod,
Yn amlwg mewn gloew glod.

Y mae y golofn wenlliw sydd yn nghwr uchaf y fynwent yn bytholi coffadwriaeth gwraig garedig,—diweddar briod y Parch. J. Jones, Bryn'rodyn. Nid oes beddfaen eto ar orweddfa Hugh Jones, Bronyrerw, ond ceir yr englyn canlynol, o eiddo Hywel Tudur, ar y garreg lle yr huna dau o'i feibion:—

O Fron-yr-erw i Fryn-hir-aros,—aethant
I fan bythol ddiddos:
O waelni a hir wylnos,
I le gwych, di-nych, di-nos.

* * * * *

Ond y mae y "gwawl-arlunydd" yn barod. Gosodwn y gadair yn nghyntedd yr addoldy, a chaiff yr "esgob" sefyll fel gwyliedydd gerllaw i sicrhau dilysrwydd y drafodaeth! Dyma hi. Cadair ddwyfraich ydyw, wedi ei

gwneyd o dderw du Cymreig. Ysgafn, yn hytrach, ydyw ei gwneuthuriad, ac y mae ol llaw gelfydd ar y cefn, y breichiau, a'r traed. Rhaid ei bod dros gant oed, ac eto nid ydyw arwyddion henaint wedi ymaflyd ynddi. Erys yn gadarn a hardd: nid oes pryf na phydredd wedi cyffwrdd â'i choed. Gall y duwinydd trymaf yn Arfon eistedd ynddi yn ddiberygl; ac i bob golwg gall ddal am ganrif eto heb fod nemawr gwaeth. Onid yw yn haeddu cael tynu ei llûn? Gofidia edmygwyr Robert Roberts nad oes darlun ohono ef ar gael yn un man. Tra y mae genym ddarluniau gweddol o'r Tadau Methodistaidd—Howell Harris, Daniel Rowland, Williams Pantycelyn, Jones Edeyrn, Charles o'r Bala, &c., nid oes cymaint a lled llaw ar len na maen i ddynodi ffurf gorphorol, na mynegiant gwynebpryd y seraph o Glynnog. Rhaid i arlunydd y dyfodol ddibynu ar ddesgrifiadau yr "hen bobl," fel y maent

wedi eu corphori yn ysgrifau Michael Roberts, Eben Fardd, Dr. Owen Thomas, a Dr. Griffith Parry, yr hwn sydd yn un o ddisgynyddion Robert Roberts.

Dan yr amgylchiadau hyn, pan y mae y creiriau mor brinion, yr ydym yn dirgel feddwl y bydd yn ddymunol gan y darllenydd gael darlun o "gadair" y prophwyd, ac os metha y darlun a llwyr foddhau ei gywreinrwydd, yr ydym yn gwbl foddlawn iddo fynd ar bererindod i Gapel Uchaf, Clynnog, a cheisio gwneyd ei well!

Yno y mae y "gadair" hanesyddol wedi cael llety hyd yn hyn. Nid ydyw wedi mudo ond ychydig latheni o'r llecyn lle y defnyddid hi gan ei pherchen hyglod, ac yr ydym yn hyderu mai yno y cedwir hi yn y dyfodol. Cawsom ar deall fod ymgais wedi ei wneyd i'w phrynu, a'i chymeryd i le arall. Na foed i'r frawdoliaeth yn Capel Uchaf ildio i'r demta-

siwn. Nis gellir ei phrynu. Y mae yn rhan o hanes yr achos yn y lle. Gall ei phresenoldeb yno fod yn fendith i lawer. Rhaid i ddyn fod yn gwbl ddi-farddoniaeth os na theimla ryw ias o gysegredigrwydd yn ymgripio drosto yn ymyl "cadair" y gwr fu yn ysgwyd cenedl â'i hyawdledd, ac a barodd i'w wlad ei gofio fel pregethwr "hynotaf" ei ddydd.

Y mae "cadeiriau enwog" Cymru wedi lluosogi er ei amser ef. Er y pryd hwnnw, y mae cadair llenyddiaeth wedi ymgodi i uchel fri, a gallwn ymffrostio yn nghadair yr athrofa a'r brif-ysgol. Ond er amledd cadeiriau anrhydedd ac awdurdod drwy Ogledd a De, yr ydym yn credu y bydd lle arhosol yn nheml crefydd Cymru Fydd i'r gadair yr ydym wedi ceisio ei darlunio, ac adrodd ei hanes,—

CADAIR ROBERT ROBERTS, CLYNNOG.

CAERNARFON:
ARGRAPHWYD GAN GWMNI'R WASG GENEDLAETHOL GYMREIG (CYF.).

06099

SGU

VAN